Senedd Cymru
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) Llywodraeth Cymru ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio

Hydref 2023

1. Y cefndir

Bil Ffyniant Bro ac Adfywio Llywodraeth y DU

1. Cyflwynwyd y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio[1] (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 11 Mai 2022. Noddir y Bil gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau.

2. Mae enw hir y Bil yn nodi pwrpas y Bil fel a ganlyn:

> *"make provision for the setting of levelling-up missions and reporting on progress in delivering them; about local democracy; about town and country planning; about Community Infrastructure Levy; about the imposition of Infrastructure Levy; about environmental outcome reports for certain consents and plans; about regeneration; about the compulsory purchase of land; about information and records relating to land, the environment or heritage; for the provision for pavement licences to be permanent; about governance of the Royal Institution of Chartered Surveyors; about vagrancy and begging; and for connected purposes."*

3. Ar adeg cytuno ar ein hadroddiad, roedd y Bil wedi cwblhau ei Drydydd Darlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi, a'r bwriad oedd ystyried gwelliannau'r Arglwyddi yn Nhŷ'r Cyffredin ar 17 Hydref 2023.

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2)

4. Yn unol â Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2, mae'n ofynnol gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol gan Lywodraeth y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu ei chymhwysedd deddfwriaethol.

5. Ar 28 Medi 2022, gosododd y Gweinidog Newid Hinsawdd (y Gweinidog) Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm cychwynnol) gerbron y Senedd mewn cysylltiad â'r Bil.[2]

[1] Y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, fel y'i cyflwynwyd (Bil 6) (Saesneg yn unig)
[2] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, Medi 2022

6. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm cychwynnol erbyn 8 Rhagfyr 2022.[3]

7. Ar 25 Tachwedd 2022, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig (y Memorandwm diwygiedig) gerbron y Senedd,[4] yn dilyn gohebiaeth gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai[5] a'r Pwyllgor hwn.[6]

8. Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar derfyn amser newydd i adrodd ar y Memorandwm diwygiedig, sef 16 Chwefror 2023.[7]

9. Ar ôl i Lywodraeth y DU gyflwyno gwelliannau i'r Bil yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin, gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) sy'n adlewyrchu'r gwelliannau hyn ar 30 Tachwedd 2022.[8]

10. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cyflwyno'r adroddiad ar Femorandwm Rhif 2 erbyn 16 Chwefror 2023.[9]

11. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ar y Memorandwm diwygiedig a Memorandwm Rhif 2 (yr adroddiad gwreiddiol) ar 24 Chwefror 2023.[10]

12. Ymatebodd y Gweinidog i'n hadroddiad ar 25 Ebrill 2023.[11]

---

[3] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, Hydref 2022
[4] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Ategol, y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, Tachwedd 2022
[5] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai at y Gweinidog Newid Hinsawdd, 1 Tachwedd 2022
[6] Llythyr at y Gweinidog Newid Hinsawdd, 2 Tachwedd 2022
[7] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen diwygiedig ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, Tachwedd 2022
[8] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2), y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, 30 Tachwedd 2022
[9] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, Rhagfyr 2022
[10] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, Chwefror 2023
[11] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 25 Ebrill 2023

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 3)

13. Ar 27 Ebrill 2023, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol arall (Memorandwm Rhif 3) mewn cysylltiad â'r Bil.[12]

14. Roedd Memorandwm Rhif 3 yn ymwneud â gwelliannau i'r Bil a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 13 Mawrth 2023 ac a ystyriwyd yn y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi.

15. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 3 erbyn 22 Mai 2023,[13] cyn caniatáu estyniadau hyd at 5 Mehefin 2023[14] ac yna 12 Mehefin 2023.[15]

16. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ar Femorandwm Rhif 3 ar 9 Mehefin 2023.[16]

17. Ymatebodd y Gweinidog i'n hadroddiad ar 27 Mehefin 2023.[17]

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 4)

18. Gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol arall (Memorandwm Rhif 4) mewn cysylltiad â'r Bil ar 16 Awst 2023.[18]

19. Mae Memorandwm Rhif 4 yn ymwneud â thua 63 o welliannau i'r Bil a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i'w hystyried fel rhan o'r Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi.

---

[12] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, Ebrill 2023
[13] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, Ebrill 2023
[14] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, Ebrill 2023, Mai 2023
[15] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, Ebrill 2023, Mai 2023
[16] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, Mehefin 2023
[17] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 27 Mehefin 2023
[18] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4), y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, Awst 2023 (y dyddiad y gosodwyd y ddogfen yn y Swyddfa Gyflwyno).

20. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cyflwyno'r adroddiad ar Femorandwm Rhif 4 erbyn 13 Hydref 2023.[19]

Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

21. Mae unrhyw gyfeiriadau at y darpariaethau yn y Bil yn cyfeirio at y fersiwn fel ar 24 Mai 2023[20], oni nodir yn wahanol, er mwyn adlewyrchu'r rhifo ym Memorandwm Rhif 4.

22. Mae'r Memorandwm yn nodi'r diwygiadau a ganlyn y mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, sef:

- Rhan 1 (Cenadaethau Ffyniant Bro) – mewnosod cymal newydd[21] a diwygiadau i gymal 2 a chymalau 4 i 6;
- Rhan 3, Pennod 1 (Data Cynllunio) – diwygiadau i gymalau 79, 84 ac 85, yn ogystal â mewnosod cymal newydd;
- Rhan 6 (Adroddiadau am Ganlyniadau Amgylcheddol) – diwygiadau i gymalau 143, 147 a 148, cymalau 152 i 154, cymal 157, yn ogystal â mewnosod cymal newydd;
- Rhan 12 (Amrywiol) – mewnosod cymal newydd;
- Rhan 13 (Cyffredinol) - diwygiadau i gymalau 231, 233 a 234;
- Mewnosod 3 Atodlen newydd sy'n ymwneud â data cynllunio, deddfwriaeth ar asesiadau amgylcheddol ac adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol.

23. Cytunodd Tŷ'r Arglwyddi ar y gwelliannau yn ystod trafodion y Cyfnod Adrodd ym mis Gorffennaf a mis Medi 2023.[22]

24. Mae Memorandwm Rhif 4 yn nodi bod Llywodraeth y DU o'r farn nad oes angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer cymalau yn Rhan 1 o'r Bil[23]. Nid yw'n nodi a yw Llywodraeth y DU o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y

[19] Y Pwyllgor Busnes, Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 4) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio,, Medi 2023
[20] Y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor (Bil Tŷ'r Arglwyddi 142) (Saesneg yn unig)
[21] Mae gwelliant 9 yn mewnosod cymal newydd (yn hytrach na diwygio cymal 1 fel y gellid ei ddehongli o'r geiriad ym Memorandwm Rhif 4)
[22] Y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio , y Cyfnod Adrodd: Cofnod trafodion Hansard Tŷ'r Arglwyddi (Saesneg yn unig)
[23] Memorandwm Rhif 4, paragraff 22

cymalau eraill a'r Atodlenni fel y'u diwygir neu fel y'u mewnosodir gan y gwelliannau a nodir ym Memorandwm Rhif 4.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

25. Ym Memorandwm Rhif 4, mae'r Gweinidog yn amlinellu'r cefndir i gyflwyno'r Bil a sut yr ymdriniodd Llywodraeth y DU â'r broses,[24] gan nodi'r isod yn benodol:

> *"Nid ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru ynghylch datblygu'r Bil, nac ynghylch y Cenadaethau Ffyniant Bro sy'n sail i Ran 1, ac sydd yn y Papur Gwyn ar Ffyniant Bro (Chwefror 2022)."*[25]

26. Mae'r Gweinidog yn datgan fel a ganlyn:

> *"Rwy'n fodlon bod y gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 4 Gorffennaf yn gwella'r sefyllfa a amlinellwyd yn yr LCM diwygiedig gwreiddiol a osodwyd ar gyfer y Bil hwn ar 25 Tachwedd 2022.*
>
> *Mae gwelliant 9 yn rhoi dyletswydd ar Weinidog y Goron, wrth bennu amcanion y mae Llywodraeth ei Fawrhydi yn bwriadu eu ceisio er mwyn lleihau anghyfartalwch daearyddol yn y Deyrnas Unedig (a fydd yn cael eu cynnwys mewn datganiad am genadaethau ffyniant bro) i (a) ystyried unrhyw rôl Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru a (b) ymgynghori â Llywodraeth Cymru (fel sy'n briodol yn nhyb y Gweinidog)."*[26]

27. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog hefyd yn amlinellu pryderon ynghylch Rhan 1 o'r Bil,[27] gan gynnwys:

- y gallai'r Senedd basio deddfwriaeth gyfatebol;[28]
- effaith cenadaethau ffyniant bro ar y ffordd mae'r arian sy'n cefnogi'r agenda ffyniant bro yn cael ei wario;[29]

[24] Memorandwm Rhif 4, paragraffau 9 i 14
[25] Memorandwm Rhif 4, paragraff 11
[26] Memorandwm Rhif 4, paragraffau 95 i 96
[27] Memorandwm Rhif 4, paragraffau 93 i 94 a 97 i 103
[28] Memorandwm Rhif 4, paragraffau 93 a 103
[29] Memorandwm Rhif 4, paragraff 97

- bod y cenadaethau ffyniant bro a'r metrigau cysylltiedig wedi cael eu datblygu heb ymgynghori â Llywodraeth Cymru;[30]

- sut y bydd Llywodraeth y DU yn cyflawni ei dyletswyddau fel y'u nodir yng ngwelliant 9.[31]

28. Wrth drafod cenadaethau ffyniant bro, mae'r Gweinidog hefyd yn nodi fel a ganlyn:

> *"Byddem yn disgwyl defnyddio trefniadau rhynglywodraethol i Weinidogion Cymru gael eu cynnwys yn yr agenda hon. Yn yr un modd, mae Gweinidogion Cymru yn parhau i geisio rôl wrth benderfynu ar ganlyniadau ar y cyd a'r ffordd y dylai cyllid sy'n cefnogi'r agenda Ffyniant Bro – gan gynnwys y Gronfa Ffyniant Gyffredin (cyllid yn lle arian yr UE) – gael ei wario; bydd hyn yn helpu i sicrhau polisïau cydlynol ac osgoi dyblygu."*[32]

29. O ran darpariaethau eraill yn y Bil sy'n ymwneud â chynllunio ac adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol, mae'r Gweinidog yn nodi fel a ganlyn:

> *"Mewn LCMau blaenorol, gwnaethom nodi bod potensial i'r darpariaethau mewn perthynas â darpariaethau data cynllunio ac adroddiadau am ganlyniadau amgylcheddol fod yn fanteisiol, ac roeddwn yn agored i gael fy mherswadio y dylent fod yn berthnasol i Gymru."*[33]

30. Dywedodd y Gweinidog hefyd:

> *"Yn fy LCM diwygiedig a gyflwynwyd ym mis Tachwedd, nodais fanteision posibl newid i ddull EOR ar gyfer asesiadau amgylcheddol. Ar yr adeg honno, roedd y Bil yn cynnig pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau EOR mewn meysydd datganoledig, a dim ond ymgynghori â Gweinidogion Cymru roedd angen ei wneud. Byddai'r gwelliannau uchod yn atal yr Ysgrifennydd Gwladol rhag gwneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig heb gydsyniad Gweinidogion Cymru.*

[30] Memorandwm Rhif 4, paragraff 98
[31] Memorandwm Rhif 4, paragraff 111
[32] Memorandwm Rhif 4, paragraff 111
[33] Memorandwm Rhif 4, paragraff 112

> *Mae'r gwelliannau ar draws Rhannau 3, 6, 12, 13 a'r Atodlenni cysylltiedig hefyd yn rhoi pwerau i wneud rheoliadau EOR i Weinidogion Cymru, ac felly yn adfer ffordd o wneud rheoliadau ar gyfer asesiadau effaith amgylcheddol ac asesiadau amgylcheddol strategol pe bai angen gwneud hynny, naill ai drwy welliannau i bolisïau y cytunwyd arnynt gyda rhanddeiliaid yng Nghymru, neu lle mae angen gwneud hynny oherwydd newidiadau i gyfundrefnau cydsyniad a gedwir yn ôl gan Lywodraeth y DU. (...)*
>
> *"Er y byddai gan yr Ysgrifennydd Gwladol bwerau i wneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig, byddai'r gofyniad am gydsyniad Gweinidogion Cymru ymlaen llaw, ynghyd â'r diwygiadau perthnasol i Atodlen 7B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn darparu mesurau diogelu wrth eu defnyddio. Rwyf o'r farn bod y consesiwn hwn a manteision y pwerau i wneud rheoliadau sydd gan Weinidogion Cymru yn ddigon imi argymell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad."*[34]

31. Daw'r Gweinidog i'r casgliad ei bod felly'n argymell y dylai'r Senedd roi ei chydsyniad i'r Bil.[35]

Y Datganiad Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru a osodwyd o dan Reol Sefydlog 30

32. Gosododd Llywodraeth Cymru ddatganiad ar 16 Awst 2023 o dan Reol Sefydlog 30 yn nodi y bydd darpariaethau o fewn y Bil (gan gynnwys rhai a ddaw yn sgil diwygiadau) sy'n ymwneud â phrynu gorfodol yn addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru sydd y tu allan i gymhwysedd datganoledig, ac nad ydynt felly yn ddarostyngedig i'r broses gydsyniad deddfwriaethol o dan Reol Sefydlog 29.[36]

[34] Memorandwm Rhif 4, paragraffau 104, 105 a 108
[35] Memorandwm Rhif 4, paragraff 114
[36] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio – Gwelliannau Prynu Gorfodol – Gwerth Gobeithiol ac Iawndal, 16 Awst 2023

2. Ystyriaeth y Pwyllgor

33. Trafodwyd Memorandwm Rhif 4 yn ein cyfarfod ar 18 Medi 2023. Gwnaethom gytuno ar ein hadroddiad ar 2 Hydref 2023.

34. Mae unrhyw gyfeiriadau yn y casgliadau a'r argymhellion at y darpariaethau yn y Bil yn cyfeirio at y fersiwn fel ar 24 Mai 2023 (Bil Tŷ'r Arglwyddi 142), oni nodir yn wahanol, er mwyn adlewyrchu'r rhifo ym Memorandwm Rhif 4.

Ein barn ni

Sylwadau cyffredinol ar gydsyniad

35. Nodwn asesiad Llywodraeth Cymru o'r gwelliannau a wnaed i'r Bil fel y'u nodir ym Memorandwm Rhif 4.

36. Credwn fod gwelliannau 175, 176, 177 a 178 i gymal 84[37] wedi'u cynnwys ym Memorandwm Rhif 4 ar gam, yn ôl pob tebyg, gan eu bod yn ymwneud â Gogledd Iwerddon.

Argymhelliad 1. Dylai'r Gweinidog gadarnhau a oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer gwelliannau 175, 176, 177 a 178, fel y maent yn gymwys i gymal 84 o'r Bil.

37. Yn ein hadroddiad gwreiddiol, gwnaethom nodi barn y Gweinidog na ddylid rhoi cydsyniad ar gyfer cymal 191 (fel y'i cyflwynwyd; cymal 230 o Fil Tŷ'r Arglwyddi 142) "oherwydd diffyg pwerau cyfatebol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn cysylltiad â materion datganoledig". Gwnaethom nodi fel a ganlyn:

> *"Rydym yn nodi pryderon y Gweinidog ynghylch cymal 191 o'r Bil ac yn eu rhannu. Rydym yn pryderu ei fod yn caniatáu diwygio Deddf neu Fesur gan Senedd Cymru, heb rôl i'r Senedd. Nid ydym o'r farn bod hyn yn dderbyniol. Dyma farn y mwyafrif o'r Pwyllgor."*[38]

38. Mae cymal 231 o'r Bil yn ymwneud â'r pŵer i wneud rheoliadau gan gynnwys rheoliadau o dan gymal 230. Yn y Bil fel y'i cyflwynwyd, y cymal perthnasol oedd 192; fodd bynnag, ni chyfeiriwyd ato mewn unrhyw Femoranda tan Femorandwm Rhif 4. Nodir ym Memorandwm Rhif 4 fod gwelliannau 288, 291, 294 a 298 yn dileu'r cyfeiriad at reoliadau o dan Ran 6 a Phennod 1 o Ran 3

[37] Memorandwm Rhif 4, paragraff 34
[38] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, Mehefin 2023, paragraff 67

yng nghymal 231 oherwydd bod y rheolau sy'n llywodraethu rheoliadau o'r fath i'w nodi mewn Atodlen newydd i'r Bil.[39]

Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog esbonio pam y newidiodd ei safbwynt a pham y mae bellach yn argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad ar gyfer cymal 230 o'r Bil (cymal 191 fel y'i cyflwynwyd).

Argymhelliad 3. Dylai'r Gweinidog esbonio:

— a oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 231 o'r Bil (cymal 192 fel y'i cyflwynwyd);

— pam y mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 231, fel y'i diwygiwyd gan welliannau 288, 291, 294 a 298.

— pam y mae'n argymell bod y Senedd yn cydsynio i gymal 231.

Casgliad 1. Mae'r rhan fwyaf o'r Pwyllgor yn cytuno â'r Gweinidog bod Rhan 1 o'r Bil, yn dilyn y diwygiadau a nodir ym Memorandwm Rhif 4, yn ymwneud â diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y'i disgrifir yn Rheol Sefydlog 29, a bod angen cydsyniad y Senedd felly.

Casgliad 2. Yn ddarostyngedig i argymhellion 1 i 3, rydym yn cytuno bod Pennod 1 o Ran 3 a Rhannau 6, 12 a 13 o'r Bil, yn dilyn y diwygiadau a nodir ym Memorandwm 4, yn ymwneud â diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y'i disgrifir yn Rheol Sefydlog 29, a bod angen cydsyniad y Senedd felly.

Rhan 1 o'r Bil

39. Yn ein hadroddiad gwreiddiol, gwnaethom nodi fel a ganlyn:

> *"Mae mwyafrif o'r Pwyllgor o'r farn y gallai'r dull sy'n cael ei gynnig gan Lywodraeth y DU bylu'r ffiniau datganoli, gan achosi dryswch diangen i'r cyhoedd. Gallai hefyd arwain at fabwysiadu polisïau mewn meysydd datganoledig gan lywodraethau gwahanol sy'n gwrthdaro, a'r canlyniad yw bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n aneffeithlon ac ar gyfer blaenoriaethau sy'n anghyson â'i gilydd. Yn hyn o beth, rydym yn nodi sylwadau'r Gweinidog yn tynnu sylw at y ffaith bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 eisoes yn*

[39] Memorandwm Rhif 4, paragraff 76

darparu ar gyfer rhai o'r darpariaethau sy'n ymddangos yng nghymalau 1 i 6 o'r Bil."[40]

40. Nodwyd fel a ganlyn yn ein hadroddiad gwreiddiol hefyd:

> *"Yn ogystal, mae'r Gweinidog yn nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 eisoes yn darparu ar gyfer rhai o'r darpariaethau yng nghymalau 1 i 6 o'r Bil, gan gynnwys ar gyfer adroddiadau, dangosyddion a cherrig milltir blynyddol a gosod amcanion i lunio'r darparu. Daw'r Gweinidog i'r casgliad a ganlyn:*
>
> > *"Nid mater i Weinidogion Llywodraeth y DU yw gosod targedau ar gyfer y materion hyn yng Nghymru, nac ychwaith adrodd ar gyflawni'r rhain i Senedd y DU. Ni fyddwn i'n argymell i'r Senedd roi ei chydsyniad i'r darpariaethau hyn ac ni all gefnogi Rhan 1 o'r Bil.""*[41]

41. Mewn Datganiad Ysgrifenedig ar 20 Mehefin 2023, yn dilyn pedwerydd cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol (ar 17 Mai 2023), nododd Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, er ei fod yn barod i weithio ar Ran 6 o'r Bil, ei fod wedi dweud fel a ganlyn wrth y bobl a oedd yn bresennol yn y cyfarfod:

> *"...the provision for the setting of levelling-up missions, associated metrics and targets and reporting on progress in Part 1 of that Bill represents an inappropriate intrusion into the legislative competence of the Senedd."*[42]

42. Yn dilyn gwelliannau i Ran 1 o'r Bil, nodwn fod Llywodraeth Cymru bellach yn ceisio cydsyniad ar gyfer y Rhan honno. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod gan y Gweinidog bryderon o hyd ynghylch Rhan 1 o'r Bil a'r ffaith iddi bwysleisio bod:

> *"...Llywodraeth Cymru yn parhau i fod o'r farn y gallai Senedd Cymru basio darpariaethau cyfatebol i'r rhai yn Rhan 1 a rhoi*

[40] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, Chwefror 2023, paragraff 53
[41] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, Chwefror 2023, paragraff 20
[42] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig, Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol, 20 Mehefin 2023

> *rhwymedigaethau'n union yr un fath ar Weinidogion Cymru i amlinellu'r ffordd y maent yn cynnig 'lleihau anghyfartalwch daearyddol' mewn perthynas â chyfleoedd economaidd a chymdeithasol neu gyfleoedd eraill ledled Cymru, drwy adroddiadau blynyddol a methodoleg a metrigau ar gyfer mesur cynnydd neu ddyddiadau targed."*[43]

43. O ran y darpariaethau sy'n ymwneud â data cynllunio ac adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol sydd wedi'u cynnwys yn Rhannau 3 a 6 o'r Bil, mae'r Gweinidog wedi esbonio ei bod yn "agored i gael fy mherswadio y dylent fod yn berthnasol i Gymru". Fodd bynnag, hyd y gwyddom ni, nid yw'r Gweinidog wedi nodi ei bod yn agored i gael ei pherswadio o ran a ddylai Rhan 1 o'r Bil fod yn berthnasol i Gymru.

44. Dim ond cyfeiriad byr sydd ym Memorandwm Rhif 4 at y trafodaethau a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf 2023 rhwng y Gweinidog a Gweinidog Ffyniant Bro y DU, ac nid yw'n glir a oedd hynny'n cynnwys trafod Rhan 1 o'r Bil.[44] Nodwn, fodd bynnag, i'r diwygiadau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer mewn perthynas â Rhan 1 gael eu gosod ar 4, 5 a 6 Gorffennaf 2023 a'u bod wedi cael eu trafod a'u cytuno ar ôl hynny ar 11 Gorffennaf 2023.[45]

45. Rydym hefyd yn nodi'r sylwadau mwy cyffredinol gan y Gweinidog a nodir ym Memorandwm Rhif 4:

> *"Nid oedd Llywodraeth y DU wedi cynnwys Llywodraeth Cymru yn y gwaith o ddatblygu ei Phapur Gwyn ar ffyniant bro, gan gynnwys y 12 cenhadaeth (Atodiad A) a'r metrigau cysylltiedig. Yn yr un modd nid oedd unrhyw ymgysylltu na thrafodaethau ynghylch Rhan 1 o'r Bil hwn, nac ynghylch yr angen am gydsyniad deddfwriaethol. Ers iddo gael ei gyflwyno rwyf i a'm swyddogion wedi trafod ein pryderon â Llywodraeth y DU."*[46]

46. Mae'n siomedig nad yw Llywodraeth y DU wedi ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar faterion polisi. Yn yr un modd, er ei bod bellach yn ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer y Bil, mae'n anffodus hefyd ei bod yn debyg na cheisiodd Llywodraeth Cymru ymgynghori nac ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Nghymru

[43] Memorandwm Rhif 4, paragraff 93. Gweler hefyd: Memorandwm Rhif 4 paragraffau 102, 103 a 111; Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol, y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, Tachwedd 2022, paragraffau 47 a 76
[44] Memorandwm Rhif 4, paragraff 14
[45] Memorandwm Rhif 4, paragraff 24
[46] Memorandwm Rhif 4, paragraff 94

ynghylch Rhan 1 o'r Bil, sy'n ymwneud â maes polisi sy'n hanfodol i gymunedau ledled Cymru.

47. At hynny, nid yw'n hawdd deall y goblygiadau o ran llunio polisïau Llywodraeth Cymru o ddarllen Memorandwm Rhif 4. Mae'n cyfeirio at ddefnyddio'r "trefniadau rhynglywodraethol i Weinidogion Cymru gael eu cynnwys yn yr agenda hon" a cheisio "rôl wrth benderfynu ar ganlyniadau ar y cyd a'r ffordd y dylai cyllid sy'n cefnogi'r agenda Ffyniant Bro – gan gynnwys y Gronfa Ffyniant Gyffredin (...) – gael ei wario". Fodd bynnag, ni roddir unrhyw wybodaeth neu fanylion pellach.

48. Mae'r dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â Rhan 1 o'r Bil wedi codi cyfres o gwestiynau, a chan fod yr amser yn brin i graffu ar Femorandwm Rhif 4, mae'n rhaid i ni ymdrin â'r cwestiynau hynny drwy'r argymhellion a ganlyn.

Argymhelliad 4. Dylai'r Gweinidog esbonio pam y mae Llywodraeth Cymru wedi newid ei safbwynt a pham y mae bellach yn argymell y dylai'r Senedd gydsynio i Ran 1 o'r Bil.

Argymhelliad 5. Dylai'r Gweinidog esbonio'r rhesymau pam y newidiodd Llywodraeth Cymru ei safbwynt ar Ran 1 o'r Bil a phryd y gwnaed y penderfyniad i argymell y dylai'r Senedd roi ei chydsyniad, o ystyried Datganiad Ysgrifenedig y Cwnsler Cyffredinol ar 23 Mehefin 2023 a'r ffaith bod gwelliannau perthnasol wedi eu cyflwyno ddechrau mis Gorffennaf 2023.

Argymhelliad 6. Dylai'r Gweinidog esbonio pam na ysgrifennodd at bwyllgorau'r Senedd cyn gynted ag y newidiodd ei safbwynt ar Ran 1 o'r Bil, yn enwedig o ystyried y cafodd Memorandwm Rhif 4 ei osod yn ystod toriad yr haf ar 16 Awst 2023, a thua mis ar ôl i'r gwelliannau perthnasol gael eu cyflwyno (y tu allan i ofynion arferol Rheol Sefydlog 29) yn Senedd y DU.

Argymhelliad 7. Dylai'r Gweinidog ddatgan a yw Llywodraeth Cymru yn parhau o'r farn bod Rhan 1 o'r Bil yn "yn cynrychioli ymyrraeth amhriodol yng nghymhwysedd deddfwriaethol y Senedd."

Argymhelliad 8. Dylai'r Gweinidog ddatgan a yw'n bwriadu cyflwyno Bil gan Lywodraeth Cymru sy'n ymdrin â materion sy'n ymwneud â Rhan 1 o'r Bil er mwyn galluogi'r Senedd a'i Phwyllgorau i graffu ar hyn, yn ogystal ag ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Nghymru, ac os felly pryd.

Argymhelliad 9. Dylai'r Gweinidog ddatgan pa drafodaethau y mae wedi eu cael â'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch cyflawni pob un o'r cenadaethau ffyniant bro sy'n berthnasol i Gymru o dan Ran 1 o'r Bil a chyflwyno adroddiadau arnynt.

Argymhelliad 10. Dylai'r Gweinidog esbonio:

— i ba raddau y mae'r darpariaethau yn y Bil wedi'u cynnwys eisoes yn *Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* ac a oes unrhyw wrthdaro neu orgyffwrdd rhwng y ddau ddarn o ddeddfwriaeth;

— sut y bydd y Bil a Deddf 2015 yn gweithredu ochr yn ochr â'i gilydd;

— a oes unrhyw oblygiadau'n deillio o'r Bil ar gyfer rhwymedigaethau Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf 2015, o ystyried ei sylwadau yn y Memorandwm diwygiedig.

Argymhelliad 11. Dylai'r Gweinidog ddatgan sut y bydd dull Llywodraeth Cymru o lunio polisïau ar faterion sy'n ymwneud â ffyniant bro yn newid pe bai Senedd y DU yn pasio ac yn deddfu'r Bil.

Argymhelliad 12. Dylai'r Gweinidog ddatgan pa drefniadau rhynglywodraethol y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu defnyddio wrth ymgysylltu â'r agenda ffyniant bro a gweithredu Rhan 1 o'r Bil, a pha drefniadau a roddir ar waith ganddi i sicrhau y gall y Senedd a'i Phwyllgorau ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif am y penderfyniadau y mae'n eu gwneud.

Argymhelliad 13. Dylai'r Gweinidog ddatgan pa fecanwaith y bydd yn ei defnyddio i geisio 'rôl gwneud penderfyniadau ar y cyd' wrth gytuno ar sut i wario'r arian sy'n cefnogi'r agenda ffyniant bro (gan gynnwys y Gronfa Ffyniant Gyffredin), a pha drefniadau y bydd yn eu rhoi ar waith i sicrhau bod y Senedd a'i Phwyllgorau yn gallu dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif am y penderfyniadau y mae'n eu gwneud.

Argymhelliad 14. Dylai'r Gweinidog gyflwyno adroddiad i'r Senedd cyn 12 Rhagfyr 2023 ar ganlyniad ei thrafodaethau â Llywodraeth y DU mewn perthynas ag argymhellion 12 a 13.

49. Nodwn y datganiad isod ym Memorandwm Rhif 4 mewn perthynas â Rhan 1:

> *"Bydd y Bil (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidog perthnasol y Goron osod gerbron pob Tŷ Senedd y DU y datganiad cyntaf am genadaethau ffyniant bro o fewn 30*

> *diwrnod i'r adran hon ddod i rym. Mae gwelliant 9 yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â Llywodraeth Cymru, a byddai angen i hyn ddigwydd o fewn y cyfnod hwn."*[47]

Argymhelliad 15. Dylai'r Gweinidog wneud datganiad i'r Senedd yn nodi canlyniad yr ymgynghoriad sydd ei angen bellach o dan Ran 1 o'r Bil ac i wneud trefniadau priodol i sicrhau bod datganiad cyntaf Llywodraeth y DU am genedlaethau ffyniant bro yn cael ei ddwyn i sylw'r Senedd o fewn 7 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod yn Senedd y DU.

Rhannau eraill o'r Bil

50. Fel y nodwyd eisoes yn ein hadroddiad, o ran y darpariaethau sy'n ymwneud â data cynllunio ac adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol sydd wedi'u cynnwys yn Rhannau 3 a 6 o'r Bil, mae'r Gweinidog wedi dweud wrthym ei bod yn "agored i gael fy mherswadio y dylent fod yn berthnasol i Gymru".

51. Ym Memorandwm Rhif 4, mae'r Gweinidog yn esbonio ei bod wedi sicrhau pwerau gweithredol i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r materion hyn.

52. Pan gyflwynwyd y Bil, cafodd y darpariaethau sy'n ymwneud â data cynllunio ac adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol eu drafftio fel pwerau gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig, yn ddarostyngedig i ymgynghori ymlaen llaw â Gweinidogion Cymru pan fo'r rheoliadau'n cynnwys darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd datganoledig.

53. Yn sgil y diwygiadau i Rannau 3 a 6, o ran materion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ar ddata cynllunio ac adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol, yn unigol neu ar y cyd, ond bydd yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o'r fath (ac eithrio o dan rai amgylchiadau). Felly, mae'r rhain yn bwerau cydredol plws.[48]

54. Nodwn hefyd ddatganiad y Gweinidog, wrth sicrhau'r pwerau hyn, fod y ffaith bod angen cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn i'r Ysgrifennydd Gwladol eu

[47] Memorandwm Rhif 4, paragraff 99
[48] Gweler Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 6 Awst 2021, yn cynnwys canllawiau i swyddogion Llywodraeth Cymru ar bwerau cydredol. (Mae'r cyfeiriadau yn yr adroddiad hwn at bwerau cydredol yn cynnwys cyfeiriadau at bwerau cydredol plws).

harfer, a'r ffaith bod eithriad wedi'i gynnwys fel bod modd dileu'r pwerau cydredol, yn darparu "mesurau diogelu" o ran defnyddio'r pwerau hyn.

55. Nodwyd fel a ganlyn yn ein hadroddiad ar Femorandwm Rhif 3:

> *"Fel y nodwyd gennym yn ein hadroddiad gwreiddiol, rydym yn pryderu nad yw darparu pwerau gweithredol ar gyfer Gweinidogion Cymru mewn Bil gan y DU drwy welliannau ar ddiwedd y broses ddeddfu yn Senedd y DU yn cynnig fawr o obaith o graffu gan y Senedd drwy'r broses gydsynio deddfwriaethol."*[49]

56. Felly, mae'r pryder a fynegwyd wedi'i wireddu. Senedd y DU, yn hytrach na'r Senedd, fydd yn gyfrifol am ddirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru ac am benderfynu ar y gweithdrefnau craffu a ddylai fod yn berthnasol i reoliadau a osodir gerbron y Senedd gan Weinidogion Cymru. Yn siomedig, mae swyddogaeth graffu'r Senedd wedi cael ei gwthio i'r cyrion unwaith eto i roi pleidlais 'derbyn neu wrthod' ar gynnig cydsyniad deddfwriaethol yn ei lle. Nid yw'r "mesurau diogelu" a sicrhawyd gan y Gweinidog yn ddigonol, yn ein barn ni, yn lle swyddogaeth graffu a deddfu'r Senedd.

57. At hynny, ni roddir gwybodaeth fanwl ym Memorandwm Rhif 4 am beth y bydd y pwerau sy'n cael eu dirprwyo yn galluogi Gweinidogion Cymru i'w wneud. Nid yw Memorandwm Rhif 4 ychwaith yn rhoi unrhyw wybodaeth am gwmpas y pwerau hynny.

58. Unwaith eto, mae'r dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru yn codi cyfres o gwestiynau, a chan fod yr amser yn brin i graffu ar Femorandwm Rhif 4, mae'n rhaid i ni ymdrin â'r cwestiynau hynny drwy'r argymhellion a ganlyn.

Argymhelliad 16. Dylai'r Gweinidog esbonio:

- pam y mae wedi cytuno i'r Ysgrifennydd Gwladol gael pwerau i wneud rheoliadau mewn perthynas â data cynllunio ac adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol, mewn meysydd cymhwysedd datganoledig;

[49] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, Mehefin 2023, paragraff 36

- o dan ba amgylchiadau y byddai'n cydsynio i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau mewn cysylltiad â data cynllunio ac adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol, a thrwy hynny wrthod y cyfle i'r Senedd graffu'n llawn ar reoliadau o'r fath o dan ei Rheolau Sefydlog.

Argymhelliad 17. Dylai'r Gweinidog egluro yn union sut y mae ei phryderon ynghylch cymal 155(2) (cymal 128(2) o'r Bil fel y'i cyflwynwyd), o ran hepgor adran 71A o *Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990* wedi cael eu datrys o ganlyniad i'r gwelliannau a wnaed i'r Bil.[50]

Argymhelliad 18. Dylai'r Gweinidog roi dadansoddiad manwl o'r pwerau gwneud rheoliadau a ddarperir i Weinidogion Cymru o dan y Bil gan gynnwys:

- cwmpas pob pŵer;
- datganiad o'r bwriad polisi ar gyfer pob pŵer;
- pryd y mae'n bwriadu arfer pob pŵer.

Argymhelliad 19. Dylai'r Gweinidog esbonio sut mae ei chytundeb i gynnwys pwerau cydredol yn y Bil yn gyson â'r egwyddorion y mae'r Gweinidogion wedi cytuno arnynt yn y Cabinet mewn perthynas â phwerau o'r fath, fel y'u nodir yn ei llythyr atom ar 6 Awst 2021.[51]

Argymhelliad 20. Dylai'r Gweinidog ddatgan a yw hi'n bwriadu cyflwyno, cyn diwedd y Chweched Senedd, Bil gan Lywodraeth Cymru a fydd yn cynnwys darpariaethau sy'n efelychu'r rhai a geir yn y Bil sy'n ymwneud â data cynllunio ac adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol fel bod modd i'r Senedd graffu'n llawn arnynt a fel bod modd llunio cyfraith ddwyieithog, hygyrch i Gymru.

Argymhelliad 21. Dylai'r Gweinidog ddatgan pryd y mae'n disgwyl y daw'r cyfle cyntaf a fyddai'n caniatáu i'r holl bwerau cydredol yn y Bil gael eu dileu'n unol â'r egwyddorion y cytunodd y Gweinidogion arnynt yn y Cabinet.

Craffu ar y memoranda cydsyniad deddfwriaethol

59. Mae'r gwaith o graffu ar y memoranda cydsyniad deddfwriaethol wedi cael ei rwystro oherwydd y bu'n rhaid diwygio'r memorandwm gwreiddiol yn sgil

[50] Gweler y llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 27 Mehefin 2023, yr ymateb i argymhelliad 4

[51] Gweler hefyd y cyfeiriad at egwyddorion y Cabinet yn y Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 25 Ebrill 2023

diffyg manylion priodol, diffyg gwybodaeth amserol, a newidiadau sylweddol i'r Bil mewn meysydd datganoledig ar ddiwedd proses seneddol y DU.

60. Mae'r Bil wedi bod yn destun diwygiadau sylweddol ac, oherwydd hynny, ni fu'n hawdd olrhain sut y mae rhifau'r cymalau wedi newid rhwng y fersiynau gwhanol o'r Bil a gyflwynwyd yn Senedd y DU.

61. Yn y gorffennol, rydym wedi dod i'r casgliad y dylai pob memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, fel mater o drefn, gynnwys gwybodaeth (er enghraifft ar ffurf tabl[52]) yn olrhain unrhyw newidiadau i rifau'r cymalau mewn Bil gan Lywodraeth y DU o ganlyniad i ddiwygiadau a wnaed yn ystod ei daith drwy Senedd y DU.[53] Rydym wedi dod i'r casgliad hefyd, pan fydd Llywodraeth Cymru naill ai'n dewis, neu'n derbyn cynnig gan Lywodraeth y DU, i ddefnyddio Bil y DU i ddeddfu mewn maes datganoledig, mae'n hanfodol bod unrhyw femorandwm cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas ag unrhyw Fil o'r fath yn cynnwys gwybodaeth lawn a manwl i alluogi Aelodau o'r Senedd i wneud penderfyniadau gwybodus ar gynigion cydsyniad deddfwriaethol.[54]

62. Rydym yn siomedig nad oedd Memorandwm Rhif 4 yn cynnwys gwybodaeth am y newidiadau i rifau cymalau'r Bil er mwyn hwyluso'r gwaith craffu. O ystyried y newidiadau sylweddol i'r Bil, rydym hefyd yn siomedig na ddarparwyd gwybodaeth fanwl na naratif cysylltiedig yn esbonio beth fyddai'r gwelliannau y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth Cymru yn ei olygu'n ymarferol o ran polisi. Yn ein barn ni, nid yw Memorandwm Rhif 4 yn cyrraedd y safon foddhaol.

63. Os yw Llywodraeth Cymru yn mynd i argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i Fil y DU wneud darpariaeth mewn maes datganoledig, rhaid iddi o leiaf fod yn barod i ddarparu gwybodaeth fanwl ac amserol, yn enwedig mewn perthynas â'r pwerau dirprwyedig y mae'n eu ceisio. Dylai roi cyfiawnhad digonol am y dull a fabwysiedir ganddi, a dylai fod yn barod i gael ei herio'n drylwyr os na wneir hynny.

---

[52] Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r dull hwn yn y gorffennol; gweler er enghraifft, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 5) Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, 28 Chwefror 2022, Atodiad A – Tabl yn cymharu'r fersiwn wreiddiol o'r Bil a'r fersiwn newydd ohono ar 18 Ionawr 2022

[53] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 6) Llywodraeth Cymru ar y Bil Caffael, Gorffennaf 2023, paragraff 17, casgliad 2

[54] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 6) Llywodraeth Cymru ar y Bil Caffael, Gorffennaf 2023, paragraff 21, casgliad 3

64. O ystyried y pwyntiau a godwn yn yr adroddiad hwn, rydym yn gwneud yr argymhelliad a ganlyn.

Argymhelliad 22. Dylai'r Gweinidog osod gerbron y Senedd ddogfen sy'n egluro'r effaith yng Nghymru, gan gynnwys yr effaith ar faterion datganoledig, a geir gan bob adran o'r Ddeddf sy'n gymwys yng Nghymru o fewn 3 mis i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol (os bydd hynny'n digwydd).

65. Nodwyd fel a ganlyn yn ein hadroddiad ar Femorandwm Rhif 3:

> *"Mae'r adroddiad hwn (ac eraill yr ydym wedi'u hysgrifennu dros y 18 mis diwethaf) yn tynnu sylw at sut mae'r Senedd yn cael ei hosgoi wrth ddeddfu mewn meysydd datganoledig: caiff cynigion eu negodi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (heb ddod i gytundeb o reidrwydd), gyda Senedd y DU yn deddfu, o bosibl heb unrhyw ddealltwriaeth fanwl o'r sefyllfa bolisi yng Nghymru, a heb wybodaeth fanwl amdani, nac i ba raddau y mae'r darpariaethau yn gymwys yng Nghymru. Mae hyn yn parhau'n ffordd anfoddhaol ac, yn ein barn ni, yn ffordd amhriodol, o ddeddfu mewn meysydd datganoledig."*[55]

66. Ar ôl ystyried Memorandwm Rhif 4, rydym yn ategu'r safbwynt hwnnw.

67. Rydym yn nodi bod y Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru, ond mewn ffordd sydd y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac felly nid oes angen cydsyniad. Yn lle hynny, ar gyfer darpariaethau o'r fath, mae Rheol Sefydlog 30 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru osod datganiad ysgrifenedig gerbron y Senedd, ac rydym yn nodi'r datganiad a osodwyd gan y Gweinidog yn sgil hynny.

Ymateb i'r adroddiad hwn

68. Er mwyn i'r Senedd fod mewn sefyllfa i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a ddylid cydsynio i ddarpariaethau perthnasol yn y Bil ai peidio, bydd angen i'r Gweinidog sicrhau bod ei hymatebion i'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn dod i law cyn bod y ddadl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol perthnasol yn digwydd.

[55] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, Mehefin 2023, paragraff 43

Argymhelliad 23. Dylai'r Gweinidog ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad hwn heb fod yn hwyrach na'r diwrnod cyn gwneud y cynnig cydsyniad deddfwriaethol perthnasol, ac eithrio'r argymhellion hynny sy'n darparu ar gyfer terfyn amser gwahanol.